

Rhestr o dermau digidol a band eang

| Term/Talfyriad | Diffiniad |
|-------------------------|---|
| Allwthio | I ba raddau y mae gwariant cyhoeddus yn lleihau lefelau buddsoddiad preifat |
| AMA | Arolwg Marchnad Agored - broses ymgynghori a ddefnyddir gan DBEDU ac awdurdodau lleol i ymgymryd â chynlluniau cyflwyno band eang cyflym iawn |
| Buddion | Yn disgrifio'r effeithiau hynny y gellir eu hystyried yn fudd cymdeithasol o dan ganllawiau'r Llyfr Gwyrdd |
| CAAA | Cwrs Ar-lein Agored Anferthol – lle mae miloedd o bobl yn ffrydio cyrsiau ar-lein |
| CBG | Cymhareb budd i gost – gwerth manteision polisi o'i gymharu â'i gostau |
| Codau Post Du | Codau post y disgwylir iddynt dderbyn band eang cyflym iawn gan sawl darparwr masnachol |
| Codau Post Gwyn | Codau post na ddisgwylir iddynt dderbyn band eang cyflym iawn o dan gynlluniau masnachol y cyflenwyr |
| Codau Post Llwyd | Codau post y disgwylir iddynt dderbyn band eang cyflym iawn gan un darparwr masnachol |
| Cuddni isel | Mae cuddni yn nodi pa mor hir mae'n cymryd i baced o ddata fynd o un pwynt dynodedig i'r llall ac mae'n cael ei fesur fel arfer mewn eiliadau neu milfeddeiliadau. Pan fo'n isel, cymerir bron dim amser. |
| Cyflym iawn | Mae cyflymderau cyflym iawn yn cyfeirio at gyflymder lawrlwytho o 24Mbit/eiliad o leiaf (fel y'i cymhwysir gan DBEDU) neu 30Mbit/eiliad (fel y'i cymhwysir gan Ofcom) |
| DA | Deallusrwydd Artiffisial - deallusrwydd a ddangosir gan beiriannau |
| Dadleoli | Yn disgrifio effeithiau mewn marchnadoedd cynnyrch lle bydd twf un cwmni yn arwain at golled cyfran o'r farchnad i'w gystadleuwyr |
| DBEDU | Darpariaeth Band Eang y DU |
| Defnydd | Cyfran y safleoedd sy'n derbyn gwasanaeth cyflym â chymhorthdal sy'n manteisio ar wasanaethau band eang cyflym iawn |
| FfIC | Ffibr i'r cabinet |
| FfIE | Ffibr i'r eiddo |
| FfIT | Ffibr i'r tŷ |
| Gb | Gigabit (1 Gb = 1,000 Mb = 1,000,000 Kb) |
| GB | Gigabit (1 GB = 8 Gb) |
| GBFE | Gigabite fesul eiliad |
| Gwibgyswllt | Mae cyflymderau gwibgyswllt yn cyfeirio at gyflymder sy'n uwch na 300Mbit/eiliad |
| GYG | Gwerth Ychwanegol Gros - Y gwerth a ychwanegir yn y broses |

Rhestr o dermau digidol a band eang

| | |
|-------------------------|--|
| | gynhyrchu, wedi'i fesur fel swm cyflogau ac elw |
| Lled Band | Swm y data y gellir ei drosglwyddo o fewn cyfnod penodol |
| Mb | Megabite (1 Mb = 1,000 Kb) |
| MB | Megabyte (1 MB = 8 Mb) |
| MCN | Mynediad Cenhedlaeth Nesaf, sy'n disgrifio technolegau a all gyflawni cyflymderau cyflym iawn gan gynnwys Ffibr i'r Cabinet (FfIC) neu Ffibr i'r Eiddo (FfIE). |
| Rhaniaid Digidol | Gwahaniaeth mewn cysylltedd rhwng ardaloedd, gyda rhai ardaloedd yn cael mynediad llawer cyflymach nag eraill |
| RhFfLILI | Rhwydweithiau Ffibr Llawn Lleol |
| RhP | Rhyngwrwd Pethau - mae RhP yn cwmpasu popeth sydd wedi'i gysylltu â'r rhyngwrwd, ond mae'n cael ei ddefnyddio fwyfwy i ddiffinio gwrthrychau sy'n "siarad" â'i gilydd. "Yn syml, mae Rhyngwrwd Pethau yn cynnwys dyfeisiau – o synwryddion syml i ffonau smart a gwisgbethau – sydd wedi'u cysylltu â'i gilydd |
| Tb | Terabit (1 Tb = 1,000 Gb = 1,000,000 Mb) |
| TB | Terabyte (1 TB = 8 Gb) |
| Tra Chyflym | Yn fras, cyfeiria 'tra chyflym' at gyflymder lawrlwytho sy'n fwy na 500Mbit/eiliad |